cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**2024/25**

# PTL1

# Nodiadau cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Cwrs i fyfyrwyr rhan-amser newydd

Gallwch wneud cais ar-lein hefyd yn **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

## Ynglŷn â'r nodiadau hyn

Dylid darllen y nodiadau hyn ynghyd â'ch ffurflen gais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Cwrs rhan-amser.

## Dychwelyd eich ffurflen

**Dychwelwch eich ffurflen wedi'i llenwi ac unrhyw ddogfennau at:**

**Cyllid Myfyrwyr**
**Blwch Post 211**
**Cyffordd Llandudno**
**LL30 9FU**

**Amserlen dychwelyd eich ffurflen**
Dylech ddychwelyd eich ffurflen o fewn naw mis o gychwyn y flwyddyn academaidd, fel arall efallai y gallwch golli eich hawl i gael cyllid myfyrwyr.

**Cofiwch dalu'r tâl post cywir.**

## Darllenwch ragor

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gyllid i fyfyrwyr rhan-amser trwy:

- droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**
- darllen ein canllawiau i fyfyrwyr rhan-amser
- siarad â'ch prifysgol neu'ch coleg
- ffonio ni ar **0300 200 4050**

## Gwybodaeth arall

**Ffurfiau eraill**
Gallwch archebu ffurflenni a chanllawiau Braille, print bras neu sain trwy anfon e-bost gyda'ch enw, eich cyfeiriad, a'ch Cyfeirnod Cwsmer ynghyd â manylion y ffurflen a'r fformat yr hoffech eu cael at **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**. Sylwer, dim ond ceisiadau am ffurflenni a chanllawiau ar ffurfiau eraill y gall y cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod ddelio â hwy.

# 1 Eich manylion personol

### 1.1 Cyfeirnod Cwsmer

ⓖ Eich Cyfeirnod Cwsmer yw eich cyfeirnod personol ac mae'n cynnwys 11 digid. Bydd gennych un o'r rhain os ydych eisoes wedi cael benthyciad i fyfyrwyr neu unrhyw gyllid arall i fyfyrwyr gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC). Efallai bod gennych rif os ydych wedi rhannu gwybodaeth ariannol at ddiben cais myfyriwr arall. Os nad oes gennych un, neu os na wyddoch eich Cyfeirnod Cwsmer, gadewch hyn yn wag.

### 1.2 Manylion personol

ⓣ Bydd angen i chi anfon eich:

- Gweithred newid enw, os yw'n briodol.
- Tystysgrif priodas/ysgariad, os yw'n briodol.
- Gorchymyn diddymu partneriaeth sifil, os yw'n briodol.
- Gorchymyn terfynol neu amodol, os yw'n briodol.

### 1.3 Rhif Yswiriant Gwladol

ⓖ Os oes gennych Rif Yswiriant Gwladol ond nad ydych yn ei ddarparu, ni fyddwch yn cael eich benthyciad(au) a bydd yn rhaid i chi dalu'ch ffioedd dysgu a'ch costau byw eich hun nes caiff y mater hwn ei ddatrys.

Nodir eich Rhif Yswiriant Gwladol ar unrhyw rai o'r canlynol:

- Eich cerdyn neu lythyr Rhif Yswiriant Gwladol.
- Slip talu.
- Dogfen treth incwm megis P45 neu P60.

Os nad ydych erioed wedi cael Rhif Yswiriant Gwladol, dylech adael y bocs Rhif Yswiriant Gwladol yn wag. Byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen i chi gymryd unrhyw gamau er mwyn cael Rhif Yswiriant Gwladol.

### 1.4 Tystiolaeth hunaniaeth

Os ydych wedi cyflwyno manylion eich pasbort Prydeinig dilys, nid oes rhaid ichi anfon unrhyw dystiolaeth arall i gadarnhau pwy ydych.

ⓣ Os nad oes gennych basbort Prydeinig neu os yw wedi dod i ben, mae angen ichi anfon eich:

- Pasbort heb fod o'r DU **neu**
- Hawlen Preswylio Biometrig Gwreiddiol **neu**
- Llungopi o'ch tystysgrif geni neu fabwysiadu wreiddiol y DU.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Dychwelir eich dogfennau gwreiddiol atoch cyn gynted ag y bo modd.**

# 1 Eich manylion personol – parhad

**1.7&1.8 Lluoedd Arfog**

Efallai eich bod yn gymwys i gael cymorth i astudio cwrs dysgu o bell y tu allan i Gymru os ydych chi neu aelod o'ch teulu (yr ydych yn byw gyda nhw) yn gwasanaethu y tu allan i Gymru ar hyn o bryd yn un o'r canlynol:

- Y Gwasanaeth Llyngesol (y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol)
- Y Fyddin
- Yr Awyrlu Brenhinol
- Yr Heddlu Milwrol Brenhinol
- Y Gyrcas

Bydd yr aelodau teulu canlynol yn fyfyrwyr cymwys:

- Cymar neu bartner sifil yn byw gydag aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
- Plentyn, llys-blentyn neu blentyn wedi'i fabwysiadu sy'n byw gydag aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
- Rhiant dibynnol sy'n byw gyda;
  - Phlentyn sy'n aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru
  - Cymar neu bartner sifil y plentyn sy'n aelod o Luoedd Arfog y Deyrnas Unedig sy'n gwasanaethu y tu allan i Gymru

**Os ydych chi yn y Lluoedd Arfog**

Mae angen i chi anfon llythyr yn cadarnhau eich enw, eich cyfeiriad (neu gyfeiriad BFPO) ac ym mha wlad oeddech chi fel arfer yn byw ynddi cyn i chi fod yn eich lleoliad presennol. Rhaid iddo hefyd gadarnhau'r wlad yr ydych wedi'ch lleoli ynddi ar hyn o bryd.

**Os yw'r aelod o'ch teulu yn y Lluoedd Arfog**

Bydd angen i chi anfon llythyr sy'n cadarnhau'r canlynol:

- ei enw
- ei gyfeiriad (neu gyfeiriad BFPO)
- eich enw chi
- ei berthynas gyda chi
- os wedi lleoli dramor neu yn y Deyrnas Unedig ond y tu allan i Gymru
- os ydych chi wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig fel arfer, ym mha wlad oedd yn byw ynddi'n wreiddiol cyn bod yn ei leoliad cyfredol
- os nad ydych chi fyth wedi bod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig fel arfer, y wlad yr ymunodd â'r Lluoedd Arfog ohoni

Rhaid i'r llythyr a anfonwch gael ei lofnodi, stampio a dyddio gan Swyddfa Cofnodion Uned y Lluoedd Arfog.

## 2 Cymorth blaenorol a hanes cymwysterau

**2.2 Gradd anrhydedd gan sefydliad addysgol yn y Deyrnas Unedig**

ⓖ Os oes gennych chi radd anrhydedd o sefydliad yn y Deyrnas Unedig yn barod, efallai na fyddwch yn gymwys i gael unrhyw grantiau rhan amser na Benthyciad Ffioedd Dysgu.

## 3 Manylion Preswylio

**3.1 Ble ydych chi fel arfer yn byw pan nad ydych chi'n astudio?**

ⓖ Os oes gennych chi gyfeiriad Swyddfa Bost Lluoedd Prydain, dylech roi hyn. Rydym yn defnyddio'r cyfeiriad yma i sicrhau eich bod yn cwblhau'r cais cywir am gyllid i fyfyrwyr.

**3.2 Dinesydd y DU**

ⓖ **Lluoedd Arfog**

Os na fyddwch yn preswylio fel arfer yng Nghymru oherwydd eich bod chi neu'ch rhieni neu bartner yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog, rydych yn dal yn gallu cyflwyno cais i Gyllid Myfyrwyr Cymru os oeddech chi/oeddent hwy yn byw yng Nghymru pan wnaethoch/wnaethant ymrestru.

ⓣ Bydd angen ichi anfon eich:

- Llungopi o'ch tystysgrif geni neu fabwysiadu wreiddiol y DU

**3.3 Dinesydd yr UE**

ⓣ Bydd angen ichi anfon eich:

- Pasbort neu Gerdyn Adnabod Cenedlaethol

# 3 Manylion preswylio – parhad

**3.4 Plentyn dinesydd y Swistir**

(g) I gael cyllid myfyrwyr fel plentyn dinesydd y Swistir, dylai eich rhiant sy'n ddinesydd y Swistir fod yn byw/fod wedi byw yn y DU ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd. Ewch i'r adran hanes preswylio ar dudalen 8 i ganfod pryd bydd eich blwyddyn academaidd yn cychwyn.

**3.4 Plentyn dinesydd y Swistir**

(t) Bydd angen ichi anfon y canlynol atom:

- Pasbort eich rhiant **neu** ei gerdyn adnabod cenedlaethol **a'ch** tystysgrif geni neu ddogfen gyfatebol.

Dylech hefyd anfon llythyr a lofnodwyd gan eich rhiant i gadarnhau ei fod/yr oedd yn byw yn y DU ar flwyddyn gyntaf eich blwyddyn academaidd ac un o'r canlynol:

- Datganiad banc
- Slip talu (yn dangos cyfeiriad y cartref)
- Cytundeb Tenantiaeth/Datganiad Morgais
- Bil gwasanaethau diweddar
- Gohebiaeth gan Awdurdod Lleol
- Gohebiaeth gan un o adrannau'r Llywodraeth

**3.5 Dinesydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)**

(g) Os mai plentyn, mab neu ferch yng nghyfraith neu blentyn eich partner sifil yw'r gweithiwr, rhaid ichi fod yn ddibynnol arno/arni.

Yn achos plentyn gweithwyr o'r AEE, mae'r term 'plentyn' yn golygu unigolyn 'dan 21 oed; neu ddibynyddion yr unigolyn neu briod neu bartner sifil yr unigolyn'. Nid yw hyn yn gymwys mewn achosion lle mae rhiant sy'n weithiwr o'r AEE wedi marw neu adael y DU, ac mae'r plentyn yn parhau yn y DU i orffen ei addysg.

**Dinesydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir**

**Cyflogaeth dinesydd yr AEE neu'r Swistir sy'n gweithio, sydd wedi gweithio neu sy'n chwilio am waith yn y DU**

(t) Yn achos dinesydd yr AEE neu'r Swistir, anfonwch y canlynol atom:

- Pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol.

Yn achos cyflogaeth dinesydd yr AEE neu'r Swistir, anfonwch un o'r canlynol:

- P60 neu lythyr gan gyflogwr os ydych yn gweithio ar hyn o bryd
- Cyfrifon wedi'u harchwilio, ffurflenni treth neu fanylion incwm os ydych yn hunangyflogedig
- Llythyr gan gyflogwr yn cadarnhau'r bwriad i barhau i weithio tra byddwch yn astudio
- P45, P60 neu lythyr gan gyflogwr blaenorol os ydych yn chwilio am waith ar hyn o bryd neu os ydych eisoes wedi gweithio yn y DU

# 3 Manylion preswylio – parhad

**3.5.1 Gweithio tra byddwch yn astudio**

ⓣ

Anfonwch **un** o'r canlynol:

- P60 neu lythyr gan gyflogwr os ydych yn gweithio ar hyn o bryd
- Cyfrifon wedi'u harchwilio, ffurflenni treth neu fanylion incwm os ydych yn hunangyflogedig
- Llythyr gan gyflogwr yn cadarnhau'r bwriad i barhau i weithio tra byddwch yn astudio
- P45, P60 neu lythyr gan gyflogwr blaenorol os ydych yn chwilio am waith ar hyn o bryd neu os ydych eisoes wedi gweithio yn y DU

**3.6 Gweithiwr o Dwrci**

ⓖ

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn Gweithiwr o Dwrci, rhaid bod eich rhiant o Dwrci yn gweithio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs.

ⓣ

Anfonwch:

- Basbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol eich rhiant

Rydym hefyd angen tystiolaeth o gyflogaeth eich rhiant o Dwrci yn y Deyrnas Unedig. Anfonwch:

- gontract cyflogaeth

**3.7 'statws preswylydd sefydlog'**

ⓖ

mae 'statws preswylydd sefydlog' yn golygu y gallwch fyw yn barhaol yn y DU heb i'r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ar hyd eich cyfnod yma.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau arnoch os oes unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- Rydych yn ddinesydd Prydeinig
- Mae gennych hawl i breswylio'n barhaol yn y DU
- Rydych wedi cael 'caniatâd amhenodol i aros'
- Mae gennych hawl i breswylio yn y DU

Mae gwybodaeth ychwanegol am yr hawl i breswylio'n barhaol a materion mewnfudo eraill ar gael gan y Swyddfa Gartref.

ⓣ

Bydd angen ichi anfon eich:

- Pasbort Prydeinig **neu**
- llythyr o'r Swyddfa Gtartref sy'n cadarnhau statws mewnfudo **neu**
- Hawlen Breswylio Fiometrig.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**3.8 'statws ffoadur'**

ⓖ

Os ydych chi neu eich:

- gŵr, gwraig, partner sifil
- rhiant/rhieni, llys riant

wedi gwneud cais llwyddiannus am statws ffoadur yn y DU yn unol â thelerau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ffoaduriaid 1951, ac os ydych chi neu os ydynt hwy wedi cael statws ffoadur, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr atoch chi neu atynt hwy a dogfen statws mewnfudo yn cadarnhau hyn.

Os ydych yn hawlio cyllid myfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn ffoadur, cewch eich ystyried yn 'blentyn' os oeddech dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i'r Swyddfa Gartref.

Os ydych yn hawlio cyllid myfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil ffoadur, mae'n ofynnol ichi fod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil iddo/iddi ar adeg ei gais am loches.

**Dyddiad dod i ben**

Os nad ydych chi/nad ydynt hwy wedi cael dyddiad dod i ben, dylech nodi Amh. yn y blwch dyddiad dod i ben (amherthnasol).

ⓣ

Bydd angen ichi anfon y canlynol atom:

- Llythyr gan y Swyddfa Gartref a dogfen statws mewnfudo, pasbort fel arfer neu
- Dystiolaeth sy'n cadarnhau eich perthynas â'r sawl sydd wedi cael statws ffoadur.

# 3 Manylion preswylio – parhad

**3.9 'caniatâd mynediad neu aros'**

ⓖ

Os ydych chi neu eich:

- gŵr, gwraig, partner sifil
- rhiant/rhieni, llys riant

wedi cael

- 'caniatâd mynediad neu aros' yn y Deyrnas Unedig o ganlyniad i gais am loches sydd wedi methu
- 'caniatâd mynediad neu aros' yn y Deyrnas Unedig ar sail bywyd personol. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r rhai sydd heb dderbyn y caniatâd hwn ond sydd wedi cael caniatâd i aros tu allan i'r rheolau ar sail Erthygl 8 yr ECHR
- ganiatâd dewisol lle na chyflwynwyd unrhyw gais am loches **neu**
- Loches Dyngarol

bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu ato ef/hi yn cadarnhau hyn.

Lle bydd hynny'n berthnasol, dylai'r llythyr hefyd eich hysbysu chi/eu hysbysu hwy pryd ddaw'r caniatâd i fod yn y wlad i ben.

Os ydych yn hawlio cyllid myfyrwyr fel plentyn neu lysblentyn unigolyn sydd wedi cael 'caniatâd mynediad neu aros', cewch eich ystyried yn 'blentyn' os oeddech dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i'r Swyddfa Gartref.

**Dyddiad dod i ben**

Os ydych yn hawlio cyllid myfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil unigolyn sydd wedi cael 'caniatâd i ddod i'r wlad neu aros', mae'n ofynnol ichi fod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil iddo/iddi ar adeg ei gais am loches.

Os ydych chi (neu eich gŵr, gwraig, partner sifil, rhieni neu lys riant) wedi cael 'caniatâd i aros am amser amhenodol', dylech nodi 'Amh' (amherthnasol) yn y blwch dyddiad dod i ben.

ⓣ

Bydd angen ichi anfon y canlynol atom:

- Llythyr gan y Swyddfa Gartref a dogfen statws mewnfudo (pasbort gan amlaf) **neu**
- Hawlen Breswylio Fiometrig **neu**
- Dystiolaeth sy'n cadarnhau eich perthynas â'r sawl sydd wedi cael statws 'caniatâd mynediad neu aros'.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**3.10 Unigolyn heb Ddinasyddiaeth**

Ⓖ

Os ydych chi neu eich:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant/rhieni, llysriant

wedi cael 'caniatâd i aros' fel Unigolyn heb Ddinasyddiaeth yn y Deyrnas Unedig, byddwch chi neu nhw wedi cael llythyr a dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig sy'n cadarnhau hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn unigolyn y rhoddwyd 'caniatâd i aros' iddo fel Unigolyn heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar yr adeg pan wnaeth eich rhiant eu cais i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig y cewch eich ystyried fel 'plentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun y rhoddwyd 'caniatâd i aros' iddo fel Unigolyn heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod wedi bod yn ŵr, yn wraig neu'n bartner sifil i'r unigolyn ar adeg ei gais.

Ⓣ

Bydd angen ichi anfon y canlynol atom:

- Llythyr gan y Swyddfa Gartref a dogfen statws mewnfudo (pasbort gan amlaf) **neu**
- Hawlen Breswylio Fiometrig **neu**
- Dystiolaeth sy'n cadarnhau eich perthynas â'r sawl sydd wedi cael statws 'caniatâd mynediad neu aros' fel Unigolyn heb Ddinasyddiaeth

Byddwn yn defnyddio eich hawlen preswylio fiometrig i ddilysu eich enw; ni chaiff unrhyw ddata eraill ohoni eu defnyddio na'u storio.

**3.12 Hanes preswylio**

Ⓖ

Bydd blynyddoedd academaidd yn cychwyn yn yr hydref, y gaeaf, y gwanwyn a'r haf, ac yn para am 12 mis. Defnyddiwch y tabl hwn i ganfod pryd fydd eich blwyddyn academaidd yn cychwyn.

| Bydd dyddiad cychwyn astudio rhwng | Dyddiad cychwyn y flwyddyn academaidd |
|---|---|
| 1 Awst a 31 Medi yn gynhwysol | 1 Medi 2024 |
| 1 Ionawr a 31 Mawrth yn gynhwysol | 1 Ionawr 2025 |
| 1 Ebrill a 30 Mehefin yn gynhwysol | 1 Ebrill 2025 |
| 1 Gorffennaf a 31 Gorffennaf yn gynhwysol | 1 Gorffennaf 2025 |

# 4 Ynglŷn â'ch prifysgol neu goleg a'ch cwrs

**4.8 Swm Ffioedd Dysgu a godir**

ⓖ Os nad ydych yn siŵr faint a godir arnoch am ffioedd dysgu, siaradwch gyda'ch prifysgol neu goleg i gael gwybod. Rhaid i chi ddynodi swm er mwyn i'ch ffurflen gael ei derbyn.

**4.9 Addysg Cychwynnol Athrawon**

ⓖ Mae cwrs uwchraddedig Addysg Cychwynnol Athrawon rhan-amser yn gwrs a wneir ar ôl cyflawni gradd gyntaf (Tystysgrif Addysg i Raddedigion a chyrsiau cyfatebol).

**4.10 Erasmus**

ⓖ Os ydych chi'n cwblhau lleoliad yn rhan o'r Cynllun Turing neu'r rhaglen Erasmus+, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer ffioedd addysgu.

# 5 Eich cais am fenthyciad

## 5.1 Taliadau'r benthyciad

Byddwn yn talu eich Benthyciad Ffioedd Dysgu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg mewn tri rhandaliad yn y flwyddyn academaidd. Bydd pob rhandaliad o'ch Benthyciad Ffioedd Dysgu yn cael ei dalu wedi i ni dderbyn cadarnhad gan eich prifysgol neu goleg eich bod yn bresennol ar eich cwrs. Mae uchafswm y Benthyciad Ffioedd Dysgu y gallwch fenthyg yn ddibynnol ar ble rydych yn astudio.

### Atebolrwydd am fenthyciadau

Byddwch yn atebol am eich Benthyciad Ffi Dysgu bythefnos wedi dyddiad tymor 1, ac ar ddechrau tymhorau 2 a 3, nid y dyddiadau pryd telir y rhandaliadau i'ch prifysgol neu goleg.

| Atebolrwydd | % cyfanswm y Benthyciad Ffi Dysgu y byddwch yn atebol amdano |
|---|---|
| Tymor 1 | 25% |
| Tymor 2 | 50% |
| Tymor 3 | 100% |

### Llog

Ychwanegir llog at fantolen eich benthyciad o'r diwrnod y telir rhandaliad cyntaf y benthyciad i'ch prifysgol neu eich coleg. Gallwch gael rhagor o fanylion am hyn a'r gyfradd llog bresennol yn:
**www.gov.uk/repaying-your-student-loan**

### Newid cyfanswm eich benthyciad

Gallwch newid cyfanswm y benthyciad y gofynnoch amdano yn wreiddiol trwy lenwi Ffurflen Cais am Fenthyciad Ffi Dysgu. Mae'r ffurflen Cais am Fenthyciad Ffi Dysgu ar gael i'w llwytho i lawr yn:
**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu ffoniwch ni ar **0300 200 4050** i ofyn am gopi.

## 6 Ynglŷn â'ch gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner

**6.1 Statws priodasol**

ⓖ

Diffinnir eich partner fel a ganlyn:

- eich gŵr/gwraig
- eich partner sifil
- eich partner o'r rhyw arall os ydych yn byw gyda'ch partner fel pe baech yn briod **neu**
- eich partner o'r un rhyw os ydych yn byw gyda'ch partner fel pe baech mewn partneriaeth sifil.

Os ydych wedi dechrau partneriaeth sifil dramor neu berthynas cyfreithiol cyfwerth â phartner o'r un rhyw, byddwn yn cysylltu â chi i'ch hysbysu a gaiff hyn ei gydnabod at ddibenion cyllid myfyrwyr.

**Wedi gwahanu, ysgaru neu bartneriaeth sifil wedi'i diddymu**

**Gweddw/partner sifil sy'n goroesi**

ⓣ

Bydd angen ichi anfon:

- Archddyfarniad Absoliwt **neu**
- Orchymyn diddymu **neu**
- Gorchymyn terfynol neu amodol neu
- Lythyr gan eich cyfreithiwr yn cadarnhau eich statws
- Tystysgrif marwolaeth wreiddiol

## 7 Manylion ariannol

**7.1 Budd-daliadau'r wladwriaeth**

ⓖ

Os nad ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil, ond yn byw gyda phartner, byddwn yn ystyried incwm eich partner os oes gennych bartner yn unol â'r eglurhad yn rhan 6.1 y nodiadau hyn.

Os yw eich gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner yn dymuno darparu gwybodaeth am incwm ar wahân, gall lwytho copi o'r ffurflen hon i lawr yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu ein ffonio ni ar **0300 200 4050** i ofyn am gopi.

ⓣ

Bydd angen ichi anfon:

- Llungopi o'r ddogfen wreiddiol a gawsoch gan yr asiantaeth neu'r awdurdod yn eich hysbysu am y budd-dal, **neu**
- ffurflen Cadarnhau Budd-daliadau (CB1) wedi'i llenwi ac wedi'i chynnwys gyda'r cais hwn. Llwythwch ffurflen CB1 i lawr yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu ffoniwch ni ar **0300 200 4050** i ofyn am gopi **neu**
- llythyr gan eich Swyddfa Cyngor lleol yn cadarnhau eich gostyngiad yn y Dreth Gyngor.

# 7 Manylion ariannol – parhad

**7.2 Cyfanswm incwm gros o gyflog**

ⓖ

Mae eich incwm gros yn golygu incwm cyn didyniadau o:

- gyflog
- taliadau goramser
- bonysau a/neu
- gomisiwn.

Mae arnom angen y ffigyrau yma am flwyddyn dreth 2023-24, ac fel arfer bydd hyn yn golygu'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2023, ond gall fod yn wahanol os oes gan eich cyflogwr neu eich busnes flwyddyn dreth na ddaw i ben ym mis Ebrill, neu byddwch yn cychwyn eich cwrs yng Ngorffennaf.

Dylech hefyd gynnwys unrhyw incwm a gawsoch yn 2023-24 o gyflogaeth dramor neu unrhyw incwm a gewch o dramor sydd heb ei gwmpasu gan dreth y DU yn ogystal ag unrhyw fudd-daliadau y gofynnir amdanynt.

**Peidiwch** â chynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- unrhyw ad-daliadau treth personol
- taliadau o dan gyfamod **neu**
- incwm di-dreth.

ⓣ

Gall tystiolaeth o'ch enillion gynnwys:

- llungopi o P60 2023-24 **neu**
- lungopïau o slipiau talu ar gyfer mis 12 neu wythnos 53 yn dangos 'Cyfanswm a dalwyd hyd yma' ar gyfer enillion yn y cyfnod 6 Ebrill 2023 i 5 Ebrill 2024 **neu**
- lythyr wedi'i lofnodi gan eich cyflogwr yn cadarnhau eich enillion. Dylai'r llythyr fod ar bapur pennawd y cwmni a dylai gadarnhau eich cod treth hefyd **neu**
- datganiad o enillion gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC) **a/neu**
- manylion ysgrifenedig yr holl fuddion mewn nwyddau a gewch.

### 7.3 Incwm o hunangyflogaeth

(g) Nodwch y manylion a ddangosir ar eich ffurflen hunanasesu am y flwyddyn fasnachu a ddaeth i ben yn ystod y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2023 a 5 Ebrill 2024.

Os na allwch roi'r symiau i ni, dylech roi amcangyfrif inni a nodi 'E' wrth ochr y swm ar y ffurflen.

(t) Gall tystiolaeth eich incwm o hunangyflogaeth gynnwys:

- llungopi o'ch ffurflen dreth hunanasesu **neu**
- lythyr gan eich cyfrifydd yn cadarnhau eich incwm

Os ydych yn gyfarwyddwr cwmni, anfonwch

- lungopi o'ch P60 **a/neu**
- lungopi o'ch P11D **neu**
- gadarnhad annibynnol o'ch enillion a'ch ffioedd cyfarwyddwr gan gyfrifydd siartredig neu ardystiedig neu gan HMRC.

### 7.4 Llog gros gan fanciau neu gymdeithasau adeiladu

(g) Dylech anfon tystiolaeth o log gros gan fanc neu gymdeithas adeiladu os mai hwn yw unig ffynhonnell incwm eich cartref.

(t) Gall tystiolaeth eich incwm o log gros gan fanciau neu gymdeithasau adeiladu gynnwys:

- datganiadau banc neu gymdeithasau adeiladu

### 7.5 Incwm o fuddsoddiadau eraill

(g) Bydd angen ichi anfon tystiolaeth o incwm o fuddsoddiadau eraill os mai hyn yw unig ffynhonnell incwm eich cartref

(t) Gall tystiolaeth eich incwm o fuddsoddiadau eraill gynnwys:

- datganiadau banc neu gymdeithasau adeiladu **neu**
- datganiad llog blynyddol **neu**
- talebau difidendau

### 7.6 Incwm o eiddo a osodir neu renti

(t) Gall tystiolaeth eich incwm o eiddo, gosodiadau neu renti gynnwys:

- llungopi o'ch ffurflen dreth hunanasesu **neu**
- lythyr gan eich cyfrifydd yn cadarnhau eich incwm

### 7.6.1 Cynllun Rhentu Ystafell

(g) Mae arnom eisiau gwybod faint o'ch incwm o eiddo, gosodiadau neu renti a gewch trwy'r cynllun Rhentu Ystafell, oherwydd mae unrhyw incwm hyd at £7,500 y flwyddyn yn ddi-dreth o dan y cynllun hwn. Mae hyn yn golygu na wnaiff unrhyw incwm o'r cynllun Rhentu Ystafell o dan y trothwy hwn gyfrif fel incwm at ddibenion eich asesiad o gyllid myfyrwyr.

(t)
- llungopi o'ch ffurflen dreth hunanasesu **neu**
- lythyr gan eich cyfrifydd

### 7.7 Mathau eraill o incwm

(g) Dylech gynnwys unrhyw incwm arall a gawsoch yma, er enghraifft:

- Ysgoloriaethau, ysgoloriaethau ymchwil, bwrsariaethau, dyfarniadau, grantiau a lwfansau na ddatganwyd yn flaenorol.
- Taliadau eraill a gewch am fynychu eich cwrs yn ystod y flwyddyn academaidd.
- Unrhyw daliadau gan gyflogwr sy'n eich rhyddhau i fynychu'ch cwrs yn ystod y flwyddyn academaidd. (Os gwelwch yn dda, darllenwch y nodyn ynghylch blynyddoedd academaidd ar dudalen 8).
- Unrhyw gyflog a gewch gan eich cyflogwr tra byddwch yn astudio eich cwrs. Mae hyn yn cynnwys gwaith y byddwch wedi'i orffen cyn i'r cwrs gychwyn, neu waith y cewch daliad amdano ymlaen llaw ac y gwnewch ar ôl i'r cwrs ddod i ben.
- Diswyddo a chyfandaliadau eraill a thaliadau iawndal. Rhaid i chi gynnwys swm llawn eich taliad diswyddo, hyd yn oed os nad ydych yn disgwyl treth arno.
- Lwfansau maethu neu letya os ydynt yn daliadau rheolaidd a gaiff gofalwyr maeth i dalu costau cadw plentyn.
- Yn achos buddion trethadwy mewn nwyddau, anfonwch eich P11D os gwelwch yn dda.

Os ydych yn talu unrhyw gyfran o bensiwn i bartner blaenorol oherwydd gorchymyn a wnaed o dan Ddeddf Achosion Priodasol 1973 neu'r Ddeddf Partneriaethau Sifil 2004, peidiwch â chynnwys y swm hwn fel rhan o'ch incwm pensiwn. Os ydych yn talu unrhyw gyfran o bensiwn i bartner blaenorol oherwydd gorchymyn a wnaed o dan Ddeddf Achosion Priodasol 1973 neu Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004, rhaid ichi gynnwys y swm hwn fel rhan o'ch incwm pensiwn.

# 7 Manylion ariannol – parhad

**7.7 Mathau eraill o incwm**

ⓣ Os ydych wedi datgan unrhyw fathau eraill o incwm, mae angen ichi anfon llungopïau o dystiolaeth atom i gadarnhau'r cyfanswm a gawsoch yn ystod blwyddyn dreth 2023-24.

**7.8 Plant dibynnol**

ⓖ Rhaid ichi gynnwys unrhyw incwm a gaiff y plentyn trwy weithio, o log a enillwyd ar gynilon, o fuddsoddiadau ac o unrhyw daliadau cynhaliaeth rydych yn disgwyl eu cael ar gyfer eich plant fel rhan o'u hincwm **hwy** yn y cwestiwn hwn.

**Peidiwch â chynnwys** incwm o ffynonellau megis Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant, elfen plant Credyd Cynhwysol, Cronfa Ymddiriedolaeth Plant y Llywodraeth neu symiau bychan iawn o arian o ffynonellau eraill wrth nodi incwm plentyn dibynnol.

ⓣ Bydd angen ichi anfon:

- tystysgrif(au) geni gwreiddiol eich plentyn/plant **a**
- llungopïau o dystiolaeth yn dangos incwm y plentyn o bob ffynhonnell ar ôl didynnu treth a chyfraniadau nawdd cymdeithasol ym mlwyddyn dreth 2022-23.

# 9 Telerau ac Amodau

**Atwrneiaeth**

ⓖ Os na allwch lofnodi'r ffurflen, rhaid i'ch atwrnai lofnodi'r ffurflen ar eich rhan. I ganiatáu Atwrneiaeth i unigolyn, bydd angen ichi lenwi ffurflen gyfreithiol gan nodi ei enw, y cyfnod penodol y gall weithredu ar eich rhan, a'r tasgau penodol y gall berfformio. Rhaid anfon y llythyr Atwrneiaeth gyda'r cais cyn gellir derbyn llofnod gan yr atwrnai hwnnw.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

ⓖ Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) a Llywodraeth Cymru yn Rheolyddion Data ar y cyd dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein datganiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn cynnwys mesur cymhwystra i gael cyllid myfyrwyr, asesu uchafswm y cymorth ariannol sydd ar gael, talu cyllid myfyrwyr a chanfod ac atal twyll, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth i wneud unrhyw un o'r rhain.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth, pwy sy'n gyfrifol amdani, a'r hawliau sydd gennych mewn cysylltiad â hyn, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd llawn sydd ar gael ar-lein ar

**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/hysbysiad-preifatrwydd**

Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** a gallwn anfon copi atoch.

# Y camau nesaf ar eich taith cyllid myfyrwyr

1

Byddwch **chi** yn llenwi ac yn dychwelyd eich ffurflen gais atom, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth, cyn gynted ag y bo modd.

**Rydych yma**

2

Byddwn **ni** yn prosesu eich cais. Os bydd gwybodaeth ar goll neu'n anghywir, byddwn yn cysylltu â chi. Ar ôl cael yr holl wybodaeth angenrheidiol, byddwn yn anfon llythyr Hawl i Gyllid Myfyrwyr atoch.

3

Byddwch **chi** yn dangos eich llythyr Hawl i Gyllid Myfyrwyr i'ch prifysgol neu'ch coleg (os byddant yn gofyn am ei weld).

4

Byddwn **ni** yn talu eich Benthyciad Ffioedd Dysgu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu eich coleg ar ôl iddynt ein hysbysu eich bod yn mynychu eich cwrs (os yw'n berthnasol).

Byddwn **ni** yn talu eich Grant Cwrs, mewn un rhandaliad, yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc gan ddefnyddio'r manylion a gawsom gennych (os yw'n berthnasol).